# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Ebrill 2024

Amser: 09.15 - 11.05

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# Hybrid

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09:00-09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15-09:30)

**2.1 Llythyr gan Estyn at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ar ymchwiliad Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN1-Ymateb Estyn i Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb(Saesneg yn unig)

**2.2 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ar Cronfa Cadernid Economaidd - Monitro ar ôl Cwblhau**

(Tudalennau 3 - 5)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN2-Llywodraeth Cymru-Cronfa Cadernid Economaidd

2.3 **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar adolygiadau annibynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

(Tudalennau 6 - 7)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN3-Ysgrifennydd y Cabinet dros I&GC-Cyhoeddiad adolygiadau annibynnol BIPBC

2.4 **Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23**

(Tudalennau 8 - 25)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN4-Llywodraeth Cymru-Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

2.5 **Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Trysorlys a'r Cyfansoddiad ar Fferm Gilestone**

(Tudalennau 26 - 27)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN5-Llywodraeth Cymru-Fferm Gilestone

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09:30)

## 4 Ystyriaeth llythyr Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 20 Mawrth 2024

(09:30-09:35)

4.1 **Llythyr gan Amgueddfa Cymru yn amgau eu cyngor cyfreithiol, 28 Mawrth 2024**

(Tudalennau 28 - 30)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN6-Amgueddfa Cymru-Cyngor Cyfreithiol (Saesneg yn Unig)

**4.2 Llythyr gan Amgueddfa Cymru yn annerch sylwadau a wnaed mewn llythyr at y Pwyllgor gan Darwin Gray, 1 Mawrth 2024**

(Tudalennau 31 - 33)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN7-Amgueddfa Cymru-Llythyr Darwin Gray (Saesneg yn Unig)

**4.3 Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Brif Weithredwr Amgueddfa Cymru, 13 Mawrth 2024**

(Tudalennau 34 - 35)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-PTN8 Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Brif Weithredwr Amgueddfa Cymru (Saesneg yn Unig)

## 5 Adroddiad Drafft - Craffu ar Gyfrifon: Amguedda Cymru 2021-22

(09:35-10:05) (Tudalennau 36 - 82)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-P1-Adroddiad Drafft - Craffu ar Gyfrifon Amgueddfa Cymru 2021-22 (Saeseng un Unig)

## 6 Adroddiad Archwilio Cyrmu - Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

(10:05-10:25) (Tudalennau 83 - 86)

<u>Dogfennau ategol</u>

- **Crynodeb Adroddiad Archwilio Cymru_Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru**
- <u>Adroddiad Archwilio Cymru - 'Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru'</u>

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-P2-Crynodeb Adroddiad Archwilio Cymru_Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

## 7 Papur Cwmpasu - Lawlyfr y Cabinet a Thrafodaethau Mynediad

(10:25-10:45) (Tudalennau 87 - 95)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-06-24-P3-Papur Cwmpasu Senedd Ymchwil - Llawlyfr y Cabinet a Thrafodaethau Mynediad

## 8 Ymateb Llywodraeth Cymru ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

(10:45-11:05)

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mark Isherwood MS
Chair of the Public Accounts and Public Administration Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
**Sent by email only**

28 March 2024

Dear Mark

**Covering Teachers' Absence**

Thank you for your letter dated 22 February 2024 in relation to evidence about teacher absence. We agree that this is an important area of work which has implications for the recruitment and retention of staff in schools across Wales.

During inspection and monitoring activity we discuss teacher absence and its impact on pupils, but we don't collect information about the use of supply teachers. Feedback from discussions with headteachers suggests that finding appropriately qualified staff, particularly at short notice, is very challenging. To support us with our response to your query we have also spoken to current headteachers who are on secondment with Estyn.

**Supply teachers**

During our work we tend not to observe staff on short-term contracts although we will observe supply teachers who are more established in a school on a long-term contract. We often hear senior leaders talk about the challenges faced in securing good quality supply staff, especially to cover subject specialist and Welsh medium teaching in the secondary sector. During our meetings with pupils they will often reference where they have supply teachers and the impact this has on their continuity of learning.

**Supply teacher availability**

In some parts of Wales, schools rarely have a problem with booking supply teachers and agencies ring daily to check if they need someone. In other areas, there are challenges in finding supply staff, especially at short notice and in shortage subjects/Welsh medium contexts. If absences are known about in advance, it is usually sufficient to book a week ahead, although occasionally supply staff will cancel arrangements on the day. The lack of available supply staff at short notice means that schools feel the agencies have the 'upper hand' and do not always provide someone with the right expertise or skills. As a result, many schools tend to cover unforeseen absences internally whenever possible. This is a cheaper option but can put pressure on senior staff. Some schools have appointed full-time or part-time teachers or unqualified

teachers (cover supervisors) who only teach cover lessons and support other teachers or run interventions with pupils when not required to cover lessons.

**Recruitment and retention incentives for supply teachers**

Schools generally don’t provide any recruitment or retention incentives for supply staff.

**The previous and new agency framework**

Often senior leaders are unaware that the framework has changed or don’t feel it is any different from before.

**Agency fees**

There is a big difference in cost between qualified teachers and cover supervisors sourced from agencies. Some schools tend to opt for cover supervisors because they are much cheaper and for short term supply, their perception is that the pupil experience is not hugely different. Costs for qualified supply teachers have risen but are generally in line with increases in teacher salaries. If the quality of the supply teacher is poor, the cost inevitably seems too high. In a few local authorities, schools use an insurance scheme to pay for supply staff but this doesn’t cover the full cost.

**The suitability and quality of agency staff**

There is considerable variation in the quality of agency staff and their expectations when deployed. As noted previously, in some areas of Wales, quality isn’t a significant problem, although headteachers report that only a few agency staff come into school expecting to teach. In other areas, senior leaders feel that supply staff are often of poor quality and unreliable.

**The new booking platform and its impact**

Senior leader are often unaware of new booking platform or have not made much use of it because of the lack of availability of supply teachers in some areas.

**The professional development of supply staff**

In general, senior leaders are not aware that agency staff receive any professional learning and feel that it’s not evident in the quality of their work. If there is a long-term supply (four weeks or more), schools may provide aspects of professional learning e.g. completing part of the induction process with an NQT or inviting supply staff to attend professional learning sessions with school staff. Senior leaders feel that supply agencies provide very little support for supply teachers, including NQTs, and so they feel a responsibility to do this themselves.

Yours sincerely

**Owen Evans**
His Majesty’s Chief Inspector of
Education and Training in Wales

**Grŵp Yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth**
**Economy, Energy and Transport Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General**

Eitem 2.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd

**Cronfa Cadernid Economaidd - Monitro ar ôl Cwblhau**

Yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyfrifon 2020-21 Llywodraeth Cymru, ysgrifennaf i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd yn y gwaith o fonitro ar ôl cwblhau grantiau a roddwyd gan Gronfa Cadernid Economaidd Covid-19 (ERF).

Bydd y Pwyllgor yn cofio bod Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy na 26 mil o grantiau gwerth £352m yn uniongyrchol drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) i ddiogelu busnesau a'u gweithwyr drwy gydol y pandemig, fel rhan o'r £2.6bn o gymorth ehangach a ddarparwyd i fusnesau Covid-19 . Cyflawnwyd cynlluniau'r ERF ar sail dreigl dros wyth rownd yn ystod blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22. O ystyried bod natur yr amgylchiadau y talwyd y grantiau hyn ynddynt yn ailadroddus, ein nod oedd gwella fframwaith rheoli y broses dyfarnu grantiau, dysgu o rowndiau ceisiadau blaenorol, yn ogystal â gwiriadau ar ôl dyfarnu, naill ai drwy arolygon neu fonitro ar ôl cwblhau llawn. Wedi'i atodi i'r llythyr hwn ceir y sefyllfa ar ddiwedd mis Ionawr 2024 o ran Monitro ar ôl Cwblhau yr ERF.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir,

**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Tel/Ffôn: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

Atodiad

**<u>Llywodraeth Cymru - gweithgarwch Monitro ar ol Cwblhau yr ERF</u>**

- **Camau 1 i 8 Arolwg**

| Cam ERF | Nifer yr Arolygon a anfonwyd | Nifer yr arolygon a ddychwelwyd |
|---|---|---|
| Camau Micro 1&2 | 9094 | 3029 |
| Camau BBaCh 1 a 2 (o dan £30,000) | 1257 | 421 |
| Micro Cam 3 | 1205 | 690 |
| Camau 4-7 | 3866 | 1248 |
| Cam 8 | 2484 | 772 |
| **Cyfanswm** | **17,906** | **6160** |

Gweithgaredd ar gau gan fod % y gyfradd ymateb yn fwy na'r targed a osodwyd o 30% ac ystyrir ei fod wedi'i gwblhau.

- **Camau 1-8 Monitro Ar Ôl Cwblhau**

| Cam ERF | Nifer yr Achosion | Nifer yr achosion a gaewyd | % a Gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| BBaCh Camau 1 a 2 (dros £30,000) | 1270 | 708 | 56% |
| Camau 1 a 2 Busnesau heb fod yn BBaCh | 52 | 51 | 98% |
| Cam 3 BBaCh / heb fod yn BBaCh<br>I Ragfyr<br>I Fehefin<br>Cyfanswm Cam 3 | 342<br>463<br>805 | 260<br>85<br>345 | 76%<br>18%<br>43% |
| Camau 4 i 7 BBaCh / heb fod yn BBaCh | 432 | 139 | 32% |
| Cam 8 BBaCh / heb fod yn BBaCh | 40 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **2599** | **1243** | **48%** |

**<u>ERF - Dileu Dyledion</u>**

Hyd yn hyn mae 90 o wobrau byw (bydd rhai i'r un busnes) gwerth £3,348,718 lle mae'r busnes wedi cychwyn rhyw fath o ansolfedd. Fel rhan o weithdrefnau rheoli dyledion safonol Llywodraeth Cymru, mae'r tîm Dyledion Canolog yn cyflwyno ffurflen prawf o ddyled i'r Gweinyddwr/Diddymwr i gyflwyno'r ddyled. Rydym yn aros i weld a fydd unrhyw ddosbarthu difidend i gredydwyr mewn perthynas â'r achosion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth yn erbyn yr adenillion hyn sy'n cael eu dilyn fel rhan o'i phrosesau adrodd ariannol arferol.

Mae'r datganiadau ysgrifenedig isod yn achosion lle mae'r ansolfedd wedi'u cwblhau a dileu dyledion wedi'u prosesu

- **Camau 1-8 Diddymwyd**

| **Diddymwyd** | **Nifer yr Achosion** | **Gwerth y Diddymiad** |
|---|---|---|
| Cam 1 & 2 | 7 | £282,050 |
| Cam 3 | 3 | £134,120 |
| Camau 4-7 | 0 | £0 |
| Cam 8 | 0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **10** | **£416,170** |

Felly, gwerth posibl dileu dyledion mewn perthynas â busnesau sydd wedi dechrau rhyw fath o ansolfedd yw 100 o ddyfarniadau gwerth £3,764,888.

**Adenillion ERF**

- **Camau 1-8 Cyfanswm yr Adenillion a Gwblhawyd**

| **Adenillion** | **Nifer yr Achosion** | **Gwerth yr Adenilliad** |
|---|---|---|
| Cam 1 & 2 | 28 | £1,708,884 |
| Cam 3 | 35 | £481,429 |
| Camau 4-7 | 13 | £216,743 |
| Cam 8 | 0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **76** | **£2,407,056** |

**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

SeneddCCGG@senedd.cymru

10 Ebrill 2024

Annwyl Mark

Rwy'n ysgrifennu i egluro'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rwy'n deall i'r Cadeirydd ddweud yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 7 Mawrth mai mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu ble a phryd y byddai'r adolygiadau annibynnol yn cael eu cyhoeddi. Nid dyma'r dull gweithredu y cytunwyd arno gyda'r bwrdd iechyd.

Mae'r broses y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin ag adroddiadau bob un o'r adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol IGC/Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru i ysgrifennu at brif weithredwr y bwrdd iechyd i rannu'r adroddiad terfynol yn ffurfiol, gan osod y disgwyliadau ar gyfer y camau nesaf i'w cymryd gan y bwrdd iechyd.
- Y bwrdd iechyd i drefnu bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno gan yr adolygydd/adolygwyr i'w drafod yn sesiwn ddatblygu nesaf pwyllgor perthnasol y bwrdd.
- Y bwrdd iechyd i ddatblygu ymateb drafft ar lefel rheoli i'w gytuno gan bwyllgor perthnasol y bwrdd yn ei gyfarfod cyhoeddus nesaf.
- Y bwrdd iechyd i drefnu ystyriaeth o'r adroddiad terfynol a'r ymateb mewn cyfarfod o'r bwrdd. Bydd papurau'r bwrdd, gan gynnwys copi o'r adroddiad terfynol a'r ymateb, i'w cyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd cyn cyfarfod y bwrdd.

Fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu 10 o adolygiadau annibynnol yn ymwneud â nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys diogelwch cleifion; gwasanaethau fasgwlaidd; iechyd meddwl; y gweithlu; cynllunio; a chyfathrebu ac ymgysylltu. Mae pob un o'r 10 adolygiad hyn wedi eu cwblhau, ac mae'r adroddiadau terfynol wedi cael eu rhannu'n ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddi'r adroddiadau terfynol a'i ymateb ar lefel reoli ar gyfer pedwar o'r adolygiadau hyn, fel rhan o bapurau a gyhoeddwyd ar gyfer ei gyfarfod bwrdd ym mis Tachwedd 2023.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi dolenni at yr adroddiadau hyn yn fy adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2024: Mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: adroddiad cynnydd blwyddyn 1 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi comisiynu nifer o adolygiadau fel rhan o'i ymateb i fesurau arbennig, ac rwy'n disgwyl i'r rhain gael eu trin yn yr un modd.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Copïau at: Carol Shillabeer – Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyfed Edwards – Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

# Eitem 2.4

**Dr Andrew Goodall**
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

15 Ebrill 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23**

Yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024, rwy'n croesawu sylwadau craffu adeiladol y Pwyllgor ac rwy'n falch o ddarparu ymatebion i'r wybodaeth bellach yr ydych wedi gofyn amdani fel y nodir isod.

Mae'r atodiadau yn ymateb i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani fel a ganlyn:

- Atodiad 1 – An update on the planned improvements to the delegation framework for decisions relating to the employment of senior civil servants
- Atodiad 2 – An update on the role of Local Partnerships in relation to consultancy appointments, or any other activities, undertaken through this organisation. Can you also confirm whether the resources sourced from Local Partnerships is included as part of the Welsh Government's headcount figures in the Accounts?
- Atodiad 3 – A breakdown of the ordinary staffing headcount would be provided including a breakdown of those on secondment or contractual arrangements into the organisation
- Atodiad 4 – The number of KPIs the Welsh Government has as an organisation and how, or if, they are weighted as priorities
- Atodiad 5 – Any claims that have been put through the losses statement in previous accounts, based on the Committee's scrutiny of the £1.3m payment in this relevant set of Accounts.
- Atodiad 6 – Information relating to the Committee's Public Appointments inquiry

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ


Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i'r Pwyllgor ymgymryd ag unrhyw ystyriaethau terfynol a bod y sesiwn dystiolaeth yr oeddem yn bresennol ynddi mewn perthynas â Chyfrifon 2022-23 yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**
Yr Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 1:**

**An update on the planned improvements to the delegation framework for decisions relating to the employment of senior civil servants.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r llywodraethiant a'r prosesau wedi'u dogfennu sy'n berthnasol i benderfyniadau sy'n ymwneud â gweithlu'r Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb o'r trefniadau sydd ar waith ym mis Ebrill 2024.

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â materion gweithlu'r Uwch Wasanaeth Sifil yn cael ei bennu gan y fframwaith y mae **Swyddfa'r Cabinet** yn ei oruchwylio ar gyfer holl adrannau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Nid yw telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys y cylch cyflog, wedi'u dirprwyo a Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain ar recriwtio'r Ysgrifennydd Parhaol, yn ogystal ag ar lawer o agweddau sy'n gysylltiedig â recriwtio Cyfarwyddwyr Cyffredinol a chefnogaeth ar gyfer rheoli talent ar lefel Cyfarwyddwyr.

Mae'r fframwaith i gefnogi **materion cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol** yn llwyr weithredol, ac mae'n cynnwys darparu adroddiad blynyddol i Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol (PRemCom) Llywodraeth Cymru ar gymhwyso'r fframwaith hwnnw. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf yn haf 2023. Disgwylir i'r adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 gael ei gyflwyno gyda hyn ar gyfer y Pwyllgor, cyn iddo gael ei ddarparu wedi hynny i Swyddfa'r Cabinet.

Fodd bynnag, fel gweinyddiaeth ddatganoledig, mae rhywfaint o hyblygrwydd a rhai penderfyniadau sy'n llunio rhan o drefniadau llywodraethiant ar lefel sefydliad Llywodraeth Cymru, er mwyn bodloni anghenion busnes a gweithredol. Mae'n bwysig, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am ein gweithlu, fod y penderfyniadau hynny yn dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan lywodraethiant cadarn. Mae **Fframwaith Dirprwyaethau ac Atebolrwydd y Gweithlu** Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd ar gyfer creu a gwerthuso swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil, a recriwtio iddynt, ac unrhyw newidiadau i batrymau gweithio aelodau unigol o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae'r **Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol (PRemCom)** yn cynnal sicrwydd, gan lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer rhai materion cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'r Uwch Wasanaeth Sifil gan gynnwys cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â thelerau ac amodau gwasanaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil, materion cydnabyddiaeth ariannol ac eithriadau i bolisi. Chwaraewyd rhan weithredol gan Gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol mewn cynllunio gwelliannau i lywodraethiant a phenderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil, a rhoi'r gwelliannau hynny ar waith. Chwaraeodd aelodau'r Pwyllgor rôl hefyd mewn ailffurfio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol, gan hysbysu'r cylch gorchwyl.




Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Bydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â **recriwtio'r Uwch Wasanaeth Sifil ac adnoddau**, gan eu grymuso i reoli eu gweithlu cyfan yn effeithiol a datblygu'r strwythurau cywir ar yr adeg gywir i gyflawni blaenoriaethau gweinidogol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i batrymau gweithio neu oriau gweithio y gellir eu cynnwys yng nghyllidebau dirprwyedig y gweithlu.

Mae proses gryfach wedi'i chyflwyno ar gyfer **trefniadau rhan-ymddeoliad** i gefnogi cydweithwyr yn yr Uwch Wasanaeth Sifil wrth iddynt ystyried eu trefniadau gweithio gan sicrhau hefyd fod anghenion busnes yn cael eu bodloni a bod tegwch yn cael ei gymhwyso. Mae hon yn broses ffurfiol, wedi'i dogfennu a'i safoni ar gyfer aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gofyn am gael rhan-ymddeoliad. Mae'n ofynnol i gydweithwyr yn yr Uwch Wasanaeth Sifil ddarparu achos busnes, a fydd wedi'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Cyffredinol, i'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol ei ystyried. Byddai'r achos busnes yn cynnwys effaith trefniant rhan-ymddeoliad ar y rôl, yr unigolyn a'r sefydliad a'r mesurau lliniaru a'r cyfleoedd arfaethedig. Yn dilyn penderfyniad swyddogol i gymeradwyo'r cais, caiff yr unigolyn gyflwyno cais yn ffurfiol ac ymgysylltu â Thîm Cyflogau a Phensiynau y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol i'w weithredu gyda My CSP (neu ddarparwr pensiwn arall).


BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 2:**

**An update on the role of Local Partnerships in relation to consultancy appointments, or any other activities, undertaken through this organisation. Can you also confirm whether the resources sourced from Local Partnerships is included as part of the Welsh Government's headcount figures in the Accounts?**

**Y cefndir**

Ymgynghoriaeth sector cyhoeddus yw Local Partnerships (LP), sydd ym mherchnogaeth y Gymdeithas Llywodraeth Leol (50%), Trysorlys EF (45%) a Llywodraeth Cymru (5%) ar y cyd, fel aelodau o bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Gan weithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn unig, mae LP yn gweithredu fel rhyngwyneb allweddol rhwng llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog ac yn darparu cyngor arbenigol ac adnoddau ymarferol ochr yn ochr â chefnogaeth ar gyfer cyflawni prosiectau a rhaglenni, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ffynnu a chyflawni gwerth am arian ac effeithiolrwydd ar gyfer pwrs y wlad.

Mae gan LP dîm o staff arbenigol sydd â chyfuniad o brofiad yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ar gyfer darparu cefnogaeth o ansawdd i'r sector cyhoeddus – o gefnogi a chyflymu'r gwaith o gyflawni seilwaith mawr, mynd i'r afael â heriau hinsawdd trwy gynigion effeithlonrwydd gwastraff ac ynni adnewyddadwy, i fentrau creu lleoedd ehangach.

**Perchnogaeth**

Yn wreiddiol, roedd ymgynghoriaeth LP yn fenter ar y cyd 50:50 rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Thrysorlys EF. Cymerodd Llywodraeth Cymru 5% o gyfalaf heb dalu unrhyw gost ym mis Ionawr 2018. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw hawl iddi i ddosbarthiadau ac nid yw ychwaith yn ei gwneud yn agored i unrhyw geisiadau am gyllid ychwanegol. O dan delerau cytundeb aelodau LP, mae Llywodraeth Cymru yn penodi aelod o'r bwrdd i fwrdd LP o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Gan fod y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn berchennog, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol Cymru sy'n aelodau o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cael budd o berchnogaeth LP.

Gan fod Trysorlys EF yn berchennog, mae adrannau Llywodraeth y DU yn cael budd o berchnogaeth LP.

**Caffael**

Mae LP yn manteisio ar esemptiad rhag gofynion caffael cyhoeddus a elwir yn esemptiad Teckal. Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cyfranogi

o reolaeth ar y cyd ar LP ddyfarnu contractau i LP heb gystadleuaeth, ar yr amod bod gofynion penodol yn cael eu bodloni.

Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gaffael gwasanaeth gan LP, sefydlwyd cytundeb fframwaith ym mis Awst 2018 i lywodraethu'r telerau caffael. Rhoddir gorchmynion gwaith unigol ar waith ar gyfer pob prosiect penodol, gan nodi:

- gofynion y gwasanaeth a'r canlyniadau sydd i'w cyflawni
- dyddiad dechrau'r gwasanaeth
- y ffioedd sy'n daladwy a phroffil ohonynt
- dyddiad cwblhau'r gwasanaeth
- y personél allweddol
- y lleoliadau y darperir y gwasanaeth ohonynt
- gweithdrefnau monitro contractau
- gwybodaeth reoli a chyfarfodydd

**Prosiectau Cyfredol â Llywodraeth Cymru**

Ynni Cymru
- sefydlu Ynni Cymru fel cwmni cyflenwi ynni hyd braich i ymestyn datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru.

Trydan Gwyrdd Cymru
- sefydlu Trydan Gwyrdd Cymru fel datblygwr y wladwriaeth Gymreig i gyflymu'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar yr ystad gyhoeddus yn ehangach a chynyddu eu gwerth.

Rhaglen Ynni'r Môr
- datblygu ymhellach drefniadau rheoli'r Her Môr-lynnoedd Llanw
- gweithio gyda Phort Talbot a Doc Penfro a rhanddeiliaid perthnasol y gadwyn gyflenwi i sicrhau'r buddion gorau posibl o'r diwydiant ffermydd gwynt arnofiol ar y môr sy'n cael eu datblygu
- gweithio gyda Morlais i gefnogi ei ddatblygiad cynaliadwy parhaus i hwyluso'r defnydd o gyflenwad o ddyfeisiau ffrwd lanw oddi ar Ynys Môn

Gwasanaeth Ynni
- darparu gwasanaeth ymgysylltu strategol sy'n cwmpasu'r pedwar rhanbarth yng Nghymru i holl gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys y byrddau iechyd a sefydliadau addysg uwch, i ddatblygu prosiectau lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio fflyd sy'n cyfrannu at gyflawni targedau'r sector cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni sero net
- gweithio ochr yn ochr â phartneriaid cyflenwi eraill, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Y Rhaglen Cartrefi Clyd

- gweithredu fel rheolwr y contract ar gyfer contractau Cartrefi Clyd yn ystod cyfnod o symud i drefniadau contract newydd, gan gefnogi trefniadau pontio trefnus rhwng contractau presennol a chontractau newydd
- ymwreiddio arferion a gweithdrefnau rheoli contract effeithiol ar gyfer y contract newydd, i'w mabwysiadu gan swydd rheolwr y contract barhaol
- sicrhau bod y contract newydd yn cyd-fynd ac yn integreiddio â rhaglenni effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eraill.

Rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol

- cefnogi gwaith i gyflwyno Rhaglen Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig, trwy ddarparu cymorth swyddfa ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau
- darparu adnoddau arbenigol i gefnogi trefniadau rheoli contractau effeithiol ar gyfer contractau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol Partneriaethau Cyhoeddus-Breifat gweithredol
- cefnogi'r uchelgais o sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau un blaned ac yn cyflawni carbon sero net erbyn 2050, trwy weithredu mentrau i fynd i'r afael â deunyddiau anodd eu hailgylchu ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus.

Cynllun Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- datblygu dull asesu risg a chynllunio mewn perthynas ag ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys adolygiad o weithgarwch sylfaenol, a datblygu pecyn cymorth ymaddasu sy'n cynnwys deunyddiau hyfforddi i'w ddefnyddio'n barhaus.

Cynllunydd Senario Sero Net

- dadansoddi data sydd ar gael ar adeiladau'r cyngor, goleuadau stryd a'r fflyd i amcangyfrif y gost gyffredinol yn ôl awdurdod lleol i ddatgarboneiddio ystad y cyngor ac asedau'r fflyd
- datblygu Cynllunydd Senario wedi'i safoni ar gyfer awdurdodau lleol i ymchwilio i'r opsiynau senario ar gyfer cyflawni sero net, a darparu adroddiad o'r dystiolaeth derfynol.

Canolfan Ganser Felindre

- darparu cymorth arbenigol i gaffael canolfan ganser newydd, gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn unol â'r gofynion.

Ffosffadau

- darparu cymorth arbenigol er mwyn i waith allu ail-ddechrau ar safleoedd tai fforddiadwy segur, neu'r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn segur, o ganlyniad i

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

reoliadau ynghylch effaith ffosffadau mewn afonydd, y gall cynnydd yn y boblogaeth leol yn sgil datblygiad tai newydd ei dwysáu.

Cwmni Egino

- cynnal adolygiad o gyflawniadau'r cwmni a chanfyddiadau'r rhanddeiliaid allweddol ar gyfer llywio ei gyfeiriad yn y dyfodol.

Ansawdd dŵr

- cynnal gweithdy hwyluso, a darparu adroddiad cryno, i lywio'r Rhaglen ar gyfer Dŵr sydd ar ddod.

Mae gwasanaeth staff LP yn cael ei ddarparu ar sail ymgynghorol o dan delerau'r cytundeb fframwaith a'r gorchymyn gwaith. Nid oes secondiadau i Lywodraeth Cymru.

Gan fod staff LP yn darparu eu gwasanaeth fel ymgynghorwyr, yn unol â gofynion datgeliad y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM), nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau niferoedd staff Llywodraeth Cymru yr adroddwyd amdanynt yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y Cyfrifon.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 3:**

**A breakdown of the ordinary staffing headcount would be provided including a breakdown of those on secondment or contractual arrangements into the organisation.**

Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 March 2024, roedd nifer staff Llywodraeth Cymru ar sail cyfrif pennau (‘*headcount*’) fel a ganlyn:

| | **31.3.24** |
|---|---|
| Parhaol | 5,757 |
| Ar secondiad (I mewn) | 105 |
| Ar fenthyg (I mewn) | 56 |
| Prentisiaid / Ar leoliad | 49 |
| Cyfnod penodol | 169 |
| | **6,136** |

Mae’n bwysig nodi na fydd y ffigurau uchod yn cyd-fynd â’r Niferoedd Staff a gyhoeddir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023-24. Er mwyn cyflwyno niferoedd y bobl a gyflogir ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn y mae’n ofynnol paratoi’r Niferoedd Staff ar gyfer yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol. I’r perwyl hwn, felly, cyfartaledd o’r staff Cyfwerth ag Amser Llawn dros y flwyddyn ariannol ydynt ac nid niferoedd ar sail cyfrif pennau, sef niferoedd yr unigolion a gyflogir ar bwynt penodol, waeth a ydynt yn gyflogeion amser llawn neu ran-amser.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 4:**

**The number of KPIs the Welsh Government has as an organisation and how, or if, they are weighted as priorities.**

Mae nifer y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) yr adroddwyd amdanynt yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru wedi amrywio bob blwyddyn ac wedi cael ei addasu o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu ar argaeledd data a newidiadau i nodau strategol y meysydd perfformiad.

Yn 2022-23, adroddwyd am 54 o ddangosyddion ar draws y Fframwaith. Roedd hyn yn nifer tebyg i'r blynyddoedd blaenorol (55 yn 2021-22 a 53 yn 2020-21), er bod yr union ddangosyddion yr adroddwyd amdanynt wedi amrywio dros y cyfnod hwn. Rydym yn bwriadu symud at ddull cerdyn sgorio cytbwys chwarterol o adrodd am KPI ym mlwyddyn ariannol 2024-25, ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y dangosyddion yr adroddir amdanynt.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo) a'r Bwrdd yn ystyried y dangosyddion ar gyfer pob thema, yn unigol ac ar y cyd, er mwyn gwneud asesiad cynhwysfawr a chyflawn o berfformiad. Nid yw'r dangosyddion yn cael eu pwysoli yn ôl blaenoriaeth ar hyn o bryd, ac ystyrir bod pob un ohonynt yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o berfformiad cyffredinol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o ddatblygiad y dull cerdyn sgorio cytbwys newydd, byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol pwysoli'r dangosyddion.

Mae is-set o ddangosyddion wedi'u cynnwys yn y cyfrifon blynyddol, gan nad yw'r gofod yn caniatáu i'r set lawn o ddangosyddion gael eu cynnwys. Roedd nifer o ystyriaethau wrth ddewis y dangosyddion hyn i'w cynnwys yn y cyfrifon. Roedd hyn yn cynnwys hwylustod dehongli'r dangosyddion gan gynulleidfa allanol, gallu'r dangosyddion i ddangos sut y mae'r sefydliad yn perfformio, a'u haddasrwydd ar gyfer eu cyhoeddi'n allanol. Mae'r dangosyddion cyhoeddedig hyn yn cael eu trin yn gyfartal â dangosyddion nas cyhoeddwyd gan ExCo a'r Bwrdd wrth graffu ar berfformiad Llywodraeth Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 5:**

**Any claims that have been put through the losses statement in previous accounts, based on the Committee's scrutiny of the £1.3m payment in this relevant set of Accounts.**

Mae'r tabl isod yn dangos gwerth a nifer yr hawliadau yn erbyn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pherchnogaeth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y daethpwyd i gytundeb arnynt ac a oedd wedi'u cynnwys yn y datganiadau o golledion a thaliadau arbennig yn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2018-19 i 2022-23.

| **Blwyddyn** | **Cyfanswm £'000** | **Nifer** |
|---|---|---|
| 2022-23 | 1,290 | 5 |
| 2021-22 | 1 | 4 |
| 2020-21 | 38 | 5 |
| 2019-20 | 1 | 2 |
| 2018-19 | 7 | 7 |
| | **1,337** | **23** |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad 6:**

**In relation to the Committee's Public Appointments inquiry, it was agreed that the following information would be provided:**

- **A full breakdown of the collated figures for Welsh-speakers appointed to public appointments since the institution of the relevant Public Appointments code. You also agreed to provide information on the first line of each successful applicants post code.**
- **A full list of both the regulated and unregulated bodies subject to the public appointment code.**
- **A full list of the bodies that are not subject to the code and an explanation about why this is the case.**
- **An understanding about why these arrangements are codified in an Order of Council and your understanding as to whether there is legal competence for it to be done in this way.**
- **Whether Senedd public appointments are dealt with in line with the public appointments code – is there a memorandum of understanding between the two organisations.**

**Lleoliad Penodeion i Benodiadau Cyhoeddus a'u Sgiliau Iaith Gymraeg**

Cyhoeddwyd y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus yn 2016. Ni ddechreuodd y system recriwtio Penodi gasglu data ar y Gymraeg a lleoliad tan 1 Ebrill 2019, ac felly ni cheir data cyn y dyddiad hwnnw. Nid oedd yn orfodol darparu'r data hyn o dan y system Penodi ar ôl 1 Ebrill 2019, ac felly mae'r dadansoddiad a ddarperir isod yn gyfyngedig i'r data hynny a gafodd eu darparu yn wirfoddol ar y system ar y pryd.

Mae Cais yn casglu gwybodaeth yn fwy cyson nag yr oedd y system Penodi yn ei chasglu oherwydd bod rhai meysydd y mae'n orfodol eu cwblhau erbyn hyn. Nid oedd data ar sgiliau siarad Cymraeg yn cael eu casglu o gwbl ar y system Penodi. Ar y system Cais, mae'n orfodol darparu data ar ddealltwriaeth o'r Gymraeg, sgiliau siarad Cymraeg ac ar leoliad.

Penodiadau Cyhoeddus yn ôl Lleoliad:

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chyfran y penodeion yn ôl ardal cod post. Casglwyd y data hyn o systemau recriwtio Cais a Penodi, ill dwy. Pan oedd llai na 10 o benodeion wedi'u lleoli mewn un ardal cod post, fe'u cyfunwyd â chodau post eraill yn yr un rhanbarth, er mwyn sicrhau na fyddai modd eu hadnabod.

Data sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad isod:

- Penodi o 1 Ebrill 2019 - 31 Mai 2023
- Cais (sydd wedi disodli Penodi) o 1 Mehefin 2023 - 27 Mawrth 2024

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Nid yw hyn yn cynrychioli'r holl benodiadau oherwydd gwybodaeth gyfyngedig yn unig sydd i'w chael cyn mis Mai 2023

| Ardal cod post | Nifer y penodeion | Canran y penodeion |
|---|---|---|
| **Y De-ddwyrain** | | |
| CF | 59 | 32% |
| NP | 20 | 11% |
| **Y De-orllewin** | | |
| SA | 32 | 17% |
| **Y Canolbarth** | | |
| SY*/LD | 18 | 10% |
| **Y Gogledd** | | |
| LL/CH* | 29 | 16% |
| **Y Tu Allan i Gymru** | | |
| Pob cod post arall^ | 26 | 14% |
| **Cyfanswm** | **186** | **100%** |

*Noder bod yr ardaloedd cod post hyn yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae astudio'r codau post penodol ymhellach wedi awgrymu bod bron pob un o'r penodeion hyn wedi'i leoli yng Nghymru.
^Roedd mwyafrif y codau post eraill wedi'u lleoli yn Lloegr, a nifer bach ohonynt yn yr Alban.

Penodiadau Cyhoeddus yn ôl Sgiliau Iaith Gymraeg:

Dealltwriaeth o'r Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chyfran y penodeion yn ôl lefel sgiliau deall y Gymraeg. Casglwyd y data hyn o systemau recriwtio Cais a Penodi, ill dwy. Gan mai cyfrifiadau bach o staff sy'n berthnasol i rai lefelau sgiliau penodol, cyfunwyd y data yn dri chategori: y rhai heb sgiliau, y rhai sydd â sgiliau sylfaenol neu ganolradd a'r rhai sydd â sgiliau uwch. Mae'r lefelau sgiliau penodol ym mhob categori wedi'u rhestru o dan y tabl.

| Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg | Nifer y penodeion | Canran y penodeion |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 57 | 31% |
| Sgiliau Sylfaenol/Canolraddol* | 68 | 37% |
| Sgiliau Uwch^ | 61 | 33% |
| **Cyfanswm** | **186** | **100%** |

*Mae'r categori hwn yn cynnwys penodeion ar dair lefel sgiliau: (i) y rhai sy'n gallu deall darnau o sgwrs sylfaenol, (ii) y rhai sy'n gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd neu (iii) y rhai sy'n gallu deall sgyrsiau gwaith arferol.
^Mae'r categori hwn yn cynnwys penodeion sy'n gallu deall y rhan fwyaf o sgyrsiau gwaith neu sydd â dealltwriaeth lawn o sgyrsiau ym mhob sefyllfa waith.

Sgiliau Siarad Cymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chyfran y penodeion yn ôl lefel sgiliau siarad Cymraeg. Ar system recriwtio Cais yn unig y ceir y data hyn, ac felly dim ond am tua hanner y

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

penodeion y gellir adrodd. Gan mai cyfrifiadau bach o staff sy'n berthnasol i rai lefelau sgiliau penodol, cyfunwyd y data yn dri chategori: y rhai heb sgiliau, y rhai sydd â sgiliau sylfaenol neu ganolradd a'r rhai sydd â sgiliau uwch. Mae'r lefelau sgiliau penodol ym mhob categori wedi'u rhestru o dan y tabl.

| Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg | Nifer y penodeion | Canran y penodeion |
|---|---|---|
| Dim sgiliau | 31 | 42% |
| Sgiliau Sylfaenol/Canolraddol* | 15 | 20% |
| Sgiliau Uwch^ | 28 | 38% |
| **Cyfanswm** | **74** | **100%** |

* Mae'r categori hwn yn cynnwys penodeion ar dair lefel sgiliau: (i) y rhai sy'n gallu cynnal sgyrsiau sylfaenol yn Gymraeg, (ii) y rhai sy'n gallu cynnal sgwrs syml mewn sefyllfa waith neu (iii) y rhai sy'n gallu cynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith.
^Mae'r categori hwn yn cynnwys penodeion sy'n gallu cynnal sgwrs yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith neu sy'n ystyried eu hunain yn rhugl.

Yn ei lythyr ar 15 Mawrth, ymrwymodd Tim Moss i ddarparu dadansoddiad o ddata economaidd-gymdeithasol ar gyfer penodiadau cyhoeddus pan fydd y system recriwtio newydd wedi bod ar waith am flwyddyn lawn. Fodd bynnag, byddwn yn gallu darparu dadansoddiad cychwynnol i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Ebrill.

**Cyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio sydd wedi'u rhestru yn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus 2023 ac sy'n ddarostynedig i'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus:**

Cyrff wedi'u rheoleiddio:

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru
Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop
Amgueddfa Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Career Choices Dewis Gyrfa Ltd
Comisiynydd Plant Cymru
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Comisiwn Dylunio Cymru
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Addysg a Sgiliau
Cyngor y Gweithlu Addysg
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Hybu Cig Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
Y Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymwysterau Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Chwaraeon Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol
Comisiynydd y Gymraeg
Awdurdod Cyllid Cymru

Cyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio sy'n cydymffurfio'n wirfoddol â'r cyfan neu â rhai rhannau o'r Cod[1]:

Adnodd Cyf
Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Archwilio Cymru
Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu
Y Panel Cynghori ar Aer Glân
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
Paneli Adolygu Gofal Iechyd Parhaus y GIG
Y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – Cadeirydd Annibynnol

---

[1]Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – Cadeirydd Annibynnol a Chyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru yn ychwanegiadau newydd at y rhestr hon a dyna pam na chawsant eu cynnwys yn y rhestr a ddarparwyd gyda'r ymateb i WQ91304



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Dirprwy Swyddog Interim Diogelu'r Amgylchedd i Gymru
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Byrddau Cynghori'r Ardaloedd Menter
Asesydd Amgylcheddol y Llywodraeth
Bwrdd y Rhaglen Dileu TB
Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru
Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau
Y Grŵp Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
Dyfarnwyr Annibynnol
Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig
Y Panel Sicrwydd Annibynnol ar gyfer Rheoliadau Tai
Panel Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru
Sector Development Wales Partnership Ltd, sy'n masnachu fel Diwydiant Cymru
Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd i Gymru
Y Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw
Y Bwrdd Cynghori Gweinidogol
Mwy na geiriau
Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
Paneli Adolygu Gofal Iechyd y GIG
Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru
Bwrdd Cymru Ofcom
Y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy
Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
Grŵp Adolygu'r Seilwaith Ffyrdd
Sêr Cymru
Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru
Bwrdd y Rhaglen Dileu TB
Grŵp Cynghori Technegol y Rhaglen Dileu TB
Tribiwnlys Prisio Cymru
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Grŵp Gweithredu Cymru ar y Môr a Physgodfeydd
Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru)
Llywodraeth Cymru – Cadw
Llywodraeth Cymru – penodiadau i'r bwrdd
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
WGC Holdco Ltd
Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Cwmnïau Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich sydd â statws corfforaethol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor neu na wyddys eu bod yn dilyn y Cod Ymarfer*:

Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyf
Cwmni Egino Cyf
Comisiwn Dylunio Cymru (DCfW Ltd)
Banc Datblygu Cymru ccc
GCRE Ltd (Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd)
Busnes Rhyngwladol Cymru Cyf
St Athan (Stadium Site) Ltd
Trafnidiaeth Cymru Cyf

*Nid yw hyn yn cynnwys cyrff a phwyllgorau'r GIG, pwyllgorau cynghori ad hoc, a thribiwnlysoedd (sy'n rhan o'r system gyfiawnder).

Eglurhad pam nad yw rhai cyrff cyhoeddus Cymreig yn ddarostynedig i'r Cod Llywodraethiant:

Nid yw cyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio (hy y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys mewn Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor) yn ddarostyngedig i'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Rwyf wedi rhestru'r rhai sy'n cydymffurfio'n wirfoddol â'r cyfan neu â rhai rhannau o'r Cod wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Gall cyrff cyhoeddus eraill sydd heb eu rheoleiddio benderfynu peidio â dilyn y Cod cyfan neu ran ohono. Rwyf wedi darparu rhestr o'r rhain.

An understanding about why these arrangements are codified in an Order of Council and your understanding as to whether there is legal competence for it to be done in this way:

Mae'r Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn gwneud darpariaeth i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus fonitro gweithdrefnau'r Adran wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Mae'r Gorchmynion yn cynnwys rhestr o'r holl gyrff sy'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd. Fe'u diweddarir yn rheolaidd (cyhoeddwyd y rhai diweddaraf ym mis Tachwedd 2023 a gwnaed Gorchmynion Penodiadau Cyhoeddus yn y Cyfrin Gyngor cyn hynny ym mis Gorffennaf 2023 a mis Tachwedd 2019). Mae'r penderfyniad i ychwanegu corff neu swydd at y Gorchymyn Penodiadau Cyhoeddus yn y Cyfrin Gyngor, fel bod penodiadau iddo neu iddi yn cael eu rheoleiddio, yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog sy'n penodi. Er bod Swyddfa'r Cabinet yn rhoi arweiniad cyffredinol i Adrannau ar y materion i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid ychwanegu corff neu swydd at y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, mae'n ystyried mai gweinidogion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa rai o'r penodiadau y maent yn gyfrifol am eu gwneud ddylai gael eu rheoleiddio, ynghyd â pha rai y dylid eu hystyried yn benodiadau sylweddol, gan ystyried blaenoriaethau a pholisïau adrannol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Os na fydd rolau/cyrff yn cael eu rheoleiddio, bydd rheswm dros beidio â gwneud hynny fel arfer. Yn fwyaf nodedig, ni fyddant yn cael eu rheoleiddio os oes prosesau ffurfiol eraill – sydd fel arfer yn rhai statudol – yn llywodraethu'r penodiadau iddynt (prosesau a fydd o bosibl yn golygu na fydd modd dilyn yr arferion a nodir yn y Cod Llywodraethiant wrth wneud y penodiadau), os yw nifer a natur leol y rolau yn golygu na fydd yn ymarferol i weinidogion gymryd rhan neu os oes angen rhywfaint o annibyniaeth oddi wrth y llywodraeth.

Whether Senedd public appointments are dealt with in line with the public appointments code – is there a memorandum of understanding between the two organisations?

Mae'r Senedd yn gyfrifol am wneud ei phenodiadau cyhoeddus ei hun ond nid yw'r un o'r rhain wedi'i rhestru mewn Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ac felly nid ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae gan y Senedd gyfrifoldeb i graffu ar benodiadau sylweddol a wneir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei wneud drwy gynnal gwrandawiadau cyn penodi gydag ymgeiswyr llwyddiannus. Nid oes Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Eitem 2.5

**Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Mawrth 2024

Annwyl Gadeirydd

**FFERM GILESTONE**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Chwefror yn gofyn am eglurhad ar ddau bwynt ychwanegol yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'm llythyr dyddiedig 2 Chwefror ynghylch Fferm Gilestone. Gweler isod fy ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor.

*Allwch chi gadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio prisiad newydd o'r tir, ar ôl darganfod y gweilch ar y safle? Yn flaenorol, dywedwyd wrth y pwyllgor fod gan y fferm werth marchnadol o £4.35m. Os oes prisiad newydd ar gael, a oes modd rhannu'r prisiad hwn gyda'r Pwyllgor? Os na chafwyd prisiad newydd, pam ddim?*

Cafwyd prisiad allanol o Fferm Gilestone ym mis Gorffennaf 2023 cyn inni wybod fod y gweilch wedi cyrraedd. Bryd hynny, cafodd yr eiddo brisiad o £4.25m, sef y pris y talodd Llywodraeth Cymru am yr ased. Mae'r ffaith bod yr adar wedi cyrraedd yn golygu fod gan y safle ddatganiad unigryw, a'n bod ers hynny wedi derbyn a gweithredu cynllun cadwraeth ar gyfer y gweilch. O edrych ar y sefyllfa, byddai prisiad diwygiedig cadarn yn anodd ei gael; mae natur unigryw y safle a'r sefyllfa yn golygu bod diffyg tystiolaeth debyg a/neu empirig i gadarnhau newid mewn gwerth naill ai i fyny neu i lawr. Serch hynny, bydd Alder King yn cynnal prisiad cyfredol mewn egwyddor o'r ased fel rhan o Brisiad Blynyddol holl asedau Llywodraeth Cymru. Dylai'r prisiad hwnnw fod ar gael ddechrau Mai, a byddaf yn rhoi gwybod i chi a'r Pwyllgor beth yw'r canfyddiadau.

*Allwch chi gadarnhau yr incwm a gafwyd o'r Tenantiaeth Busnes Fferm sydd ar y safle ar hyn o bryd?*

Cyfanswm yr incwm a gafwyd o'r Denantiaeth Busnes Fferm flaenorol hyd at Dachwedd 2023 oedd £37,753. Mae Tenantiaeth blwyddyn newydd ar gyfer Busnes Fferm wedi'i gytuno gyda'r tenant presennol ar gyfer tymor lesio hyd at Dachwedd 2024  Bydd yr

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ


Tel/Ffôn: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

anfoneb gyntaf o £16,300 o rhent o dan y denantiaeth newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Mai, a'r ail o £16,300 yn cael ei roi ym mis Hydref. Bydd unrhyw elw rhent hefyd yn cael ei roi ym mis Mai a Hydref.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon